# PWYLLGOR TRWYDDEDU

# DYDD MAWRTH, 12 GORFFENNAF 2022

**PRESENNOL** Councillor J.M. Charles (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| J.M. Charles | W.T. Evans | H. Jones | D.E. Williams |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.A. Curry | A. Evans | J.K. Howell | D. Jones |
| M.J.A. Lewis | M.D. Cranham | K. Madge | B.D.J. Phillips |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau DemocrataiddD. Bizby, Cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 11.55 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd P. Cooper

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. DEDDF TRWYDDEDU 2003 - PENODI IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yn sgil darpariaethau Deddf Trwyddedu 2003 a roddai fanylion ynghylch aelodaeth arfaethedig yr Is-bwyllgorau Trwyddedu "A" a "B" ar gyfer blwyddyn y cyngor 2022/23

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y byddai aelodaeth Is-bwyllgorau Trwyddedu "A" a "B" am weddill Blwyddyn y Cyngor 2022/23 fel a ganlyn:**

**<u>Is-bwyllgor Trwyddedu "A”</u>**
**Y Cynghorwyr Mansel Charles, Peter Cooper, Michael Cranham, Suzy Curry, Alex Evans, Tyssul Evans a Ken Howell.**

**<u>Is-bwyllgor Trwyddedu B”</u>**
**Y Cynghorwyr Dot Jones, Hefin Jones, Jean Lewis, Kevin Madge, Dorian Phillips a Elwyn Williams**

## 4. PENODI CADEIRYDDION YR IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2022/23

Bu'r Pwyllgor yn ystyried enwebiadau ar gyfer Cadeiryddion yr Is-bwyllgorau Trwyddedu ar gyfer blwyddyn y cyngor 2022/23.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**4.1 benodi'r Cynghorydd Mansel Charles yn Gadeirydd Is-bwyllgor Trwyddedu "A" am Flwyddyn y Cyngor 2022/23;**
**4.2 benodi'r Cynghorydd Elwyn Williams yn Gadeirydd Is-bwyllgor Trwyddedu "B" am Flwyddyn y Cyngor 2022/23**

## 5. TRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Nathan Edward James Courtney o Courtney Wedding Cars Ltd, 42 Maes y Capel, Pen-bre am gael ei eithrio o Amodau 5a a 5b o Amodau'r Cyngor o ran Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat ar gyfer ei gerbyd hurio preifat PH564, Telsa Model X rhif cofrestru GU67 FKO.

Dywedwyd gan mai bwriad Mr Courtney oedd defnyddio'r cerbyd hwn ar gyfer gwasanaeth hurio dethol / o feysydd awyr/porthladdoedd a proms yn unig, roedd wedi gofyn am gael ei eithrio o Amodau 5a a 5b o Amodau'r Cyngor ar gyfer Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat, sef na fyddai'n ofynnol iddo arddangos sticeri ar y drysau na phlât trwyddedu ar y bympar ôl y cerbyd.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor petai'n cytuno i ganiatáu eithriad i Mr Courtney, y byddai'r amodau canlynol yn cael eu rhoi ynghlwm wrth y drwydded:-

- Bod y cerbyd trwyddedig, sef Telsa Model X PH564 ac iddo'r rhif cofrestru GU67 FKO, yn cael ei eithrio o amodau trwyddedu 5a a 5b tra câi ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaeth hurio dethol, fel yr amlinellwyd yn y cais gan Mr Courtney;
- Petai'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Hurio Preifat, yn hytrach na hurio dethol, bod yr ymgeisydd yn rhoi gwybod ar unwaith i'r Awdurdod Trwyddedu a bod yr eithriad yn darfod o ran dibenion hurio o'r fath;
- Bod y cerbyd yn arddangos disg adnabod ar y ffenestr flaen a'r ffenestr ôl, fel y pennwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr Nathan Edward James Courtney am gael ei eithrio o Amodau 5a a 5b o Amodau'r Cyngor o ran Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat mewn perthynas â'i gerbyd hurio preifat PH564 Telsa Model X, rhif cofrestru GU67 FKO.**

## 6. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 5ED EBRILL, 2022

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu oedd wedi ei gynnal ar 5 Ebrill, 2022 yn gofnod cywir.**

7. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

8. MR MARTIN DUNNE - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod o 116 Stryd Fawr, Rhydaman, yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gan yr Awdurdod a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded. .

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Dunne ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Dunne yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod Mr. Martin Dunne yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

9. MR JASON LEWIS THOMAS - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Jason Lewis Thomas o 28 Lôn Hafren, Sanclêr, yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gan yr Awdurdod a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Thomas ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Thomas yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod Mr Jason Lewis Thomas yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

10. MR KIERAN ROGER PRYOR BOWEN - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod cais wedi dod i law gan Mr Kieran Roger Pryor Bowen o 69 Ynys Las, Llwynhendy, Llanelli am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat. Fodd bynnag, gan nad oedd Mr Bowen yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, roedd wedi gofyn i'r cais gael ei ystyried yn ei absenoldeb.

Cyflwynodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu y cais i'r Pwyllgor gan argymell bod cais Mr Kieran Roger Pryor Bowen yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr Kieran Roger Pryor Bowen am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 11. MRS NICOLA JAYNE JONES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cais gan Mrs Nicola Jayne Jones o 88 Caecoed, Llandybie, am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mrs Jones ynghylch ei chais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mrs Nicola Jayne Jones yn cael ei ganiatáu a'i bod yn cael rhybudd ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mrs Nicola Jayne Jones am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddi ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 12. MRS ABIGAIL RACHEL JONES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu at y cais a dderbyniwyd gan Mrs Abigail Rachel Jones o 44 Heol Stepney, Garnant, Rhydaman am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a gofynnodd i ystyriaeth o'r mater gael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf er mwyn cael gwybodaeth ychwanegol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried cais Mrs Abigail Rachel Jones am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat tan cyfarfod nesaf y Pwyllgor.**

## 13. MR ADAM LEE MORSE - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Adam Lee Morse o 33B Stryd y Parc Brynaman am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Morse ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Adam Lee Morse’s yn cael ei wrthod.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr Adam Lee Morse am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

<u>Rheswm</u>
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

| | |
|---|---|
| _________________________ | ___________________ |
| **CHAIR** | **DATE** |